Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf

Strategaeth Llywodraeth Cymru/y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy’n rhan o’r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni



**Gorffennaf 2014**

Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 1830 1
ISBN digidol 978 1 4734 1829 5
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22575

# Cynnwys


**Rhagair** **2**

**1. Crynodeb Gweithredol** **3**

**2. Gweledigaeth** **4**

**3. Canlyniadau** **4**

**4. Egwyddorion** **5**

**5. Cefndir** **5**

**6. Blaenoriaethau** **7**

Blaenoriaeth 1: Gweithio mewn partneriaeth a gynlluniwyd yn dda 7

Blaenoriaeth 2: Ymyrryd yn Gynnar, Atal a Dargyfeirio 12

Blaenoriaeth 3: Lleihau achosion o Aildroseddu 15

Blaenoriaeth 4: Gwneud defnydd effeithiol o'r Ddalfa 18

Blaenoriaeth 5: Ailsefydlu ac Ailintegreiddio ar ddiwedd dedfryd 22

**7. Dulliau Cyflawni** **25**

Dull Cyflawni 1: Cefnogi'r Sector Cyfiawnder Ieuenctid i ddatblygu Arfer Effeithiol 25

Dull Cyflawni 2: Goruchwylio a Chefnogi'r Sector Cyfiawnder Ieuencti 27

# Rhagair

Mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan a'r Cynllun Cyflawni wedi darparu'r fframwaith ar gyfer Polisi Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru ers iddynt gael eu cyhoeddi, y naill yn 2004 a'r llall yn 2009; gan osod sylfeini a rennir rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid; i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i atal pobl ifanc yng Nghymru rhag troseddu.

Cyflawnwyd llawer dros y blynyddoedd diwethaf drwy raglenni atal wedi'u targedu a chamau adfer amgen yn lle cyhuddo[1]. Mae nifer yr unigolion sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf yn parhau i leihau ac mae nifer y plant a'r bobl ifanc sydd yn y ddalfa ar ei lefel isaf erioed, sef 50 ym mis Mawrth 2013. Fodd bynnag, mae cyfraddau aildroseddu dal yn achosi pryder Yn rhannol, mae hyn o achos y nifer o blant sydd yn aros yn y system cyfiawnder ieuenctid yn cael lefelau mwy crynodedig o anghenion cymhleth a phatrymau troseddu mwy parhaus. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut mae'r bobl ifanc hynny sy'n troseddu ac yn ymddwyn mewn ffordd beryglus yn gyson yw'r rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sy'n cael eu herlid. Mae angen cymorth arnynt er mwyn eu hatal rhag troseddu eto, sef y rheswm pam bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau cymorth gwell i'r bobl ifanc hynny sy'n aildroseddu.

Mae angen i ni gydweithio er mwyn helpu i newid canfyddiadau o bobl ifanc sy'n troseddu a deall yn well anghenion y bobl ifanc hyn sy'n aml yn gythryblus ac yn agored i niwed a sut y gellir annog eu hunangred, eu sgiliau a'u cyflawniadau er mwyn rhoi cyfleoedd gwell iddynt mewn bywyd. Dim ond drwy ein cydymdrechion y gallwn fynd ati i ymateb i droseddau ieuenctid mewn ffordd gyfrifol, hyblyg ac optimistaidd a chreu system sy'n cefnogi ymdrechion pobl ifanc i newid ac yn helpu i greu amgylchedd diogelach a thecach i bawb.

Bydd unrhyw un sydd wedi ymweld â pherson ifanc yn y ddalfa wedi clywed drosto'i hun am brofiadau bywyd rai o'r bobl ifanc hyn. Rydym yn benderfynol o sicrhau mai dim ond fel y dewis olaf y defnyddir y ddalfa ac mai'r hyn y dylem fod yn canolbwyntio arno yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn tyfu allan o droseddu yn hytrach na chael eu denu'n gynyddol ato.

Cofnod troseddol yw'r rhwystr mwyaf rhwng person ifanc a'r bywyd y mae am ei ddilyn. Fodd bynnag, rhaid cofio hyn: y tu ôl i bob cofnod troseddol mae cofnod o droseddau a gyflawnir yn erbyn dioddefwyr sydd eu hunain wedi dod yn agored i niwed yn sgil troseddu.

Mae gennym y cyfle i helpu i chwalu'r rhwystrau hyn drwy ein dull gweithredu ar y cyd a nodir yn y Strategaeth hon. Nid oes unrhyw bobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd, dim ond y rheini sy'n hawdd eu hanwybyddu.



Yr Arglwydd McNally
Cadeirydd
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid



Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol
a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

---

[1] Mae camau adfer amgen yn lle cyhuddo unigolion a arweinir gan yr heddlu yn ffordd o sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid a'u bod yn derbyn gwasanaethau prif ffrwd er mwyn cael cymorth y mae angen dybryd amdano.

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r strategaeth ar y cyd hon yn dwyn ynghyd weledigaeth ac ymrwymiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni. Mae'n rhoi fframwaith cydlynol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid y gellir ei ddefnyddio i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu. Mae'n ategu'r camau a'r cyflawniadau a gyflawnwyd o dan Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan 2004[2] a'r Cynllun Cyflawni dilynol yn 2009[3].

1.2 Mae'r Strategaeth hon yn seiliedig ar nifer o egwyddorion allweddol ac mae'n nodi wyth canlyniad lefel uchel a ddylai fod yn brif ffocws i'r rheini sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n amlinellu'r meysydd â blaenoriaeth a'r dulliau cyflawni sydd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i wireddu ein gweledigaeth o ran cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

1.3 Nodir y blaenoriaethau isod:

1. Gweithio mewn partneriaeth a gynlluniwyd yn dda.
2. Ymyrryd yn gynnar, atal a dargyfeirio.
3. Lleihau achosion o aildroseddu.
4. Gwneud defnydd effeithiol o'r ddalfa.
5. Ailsefydlu ac ailintegreiddio ar ddiwedd dedfryd.

1.4 Nodir y dulliau cyflawni canlynol:

1. Cefnogi'r sector cyfiawnder ieuenctid i ddatblygu arfer effeithiol.
2. Goruchwylio a chefnogi'r sector cyfiawnder ieuenctid.

1.5 Rhoddir y strategaeth ar waith drwy ddatblygu cynllun cyflawni. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i fonitro'r modd y caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith, gan sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol a'i bod yn gallu ymateb i anghenion newidiol y sector cyfiawnder ieuenctid a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u darparu.

1.6 Caiff y Strategaeth ei hadolygu a'i diweddaru er mwyn adlewyrchu unrhyw oblygiadau i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru o ganlyniad i Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus[4] ac Adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru[5].

---

[2] www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/youthoffending/?skip=1&lang=cy
[3] www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/youthoffendingdeliveryplan/?skip=1&lang=cy
[4] www.wales.gov.uk/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?skip=1&lang=cy
[5] www.commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/search/doc-type/papers/

# 2. Gweledigaeth

2.1 Anelwn at wlad lle mae pob un ohonom yn gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Ond os bydd pobl ifanc yn troseddu, rydym am sicrhau bod y system a'r gwasanaethau cysylltiedig yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w helpu a'u cefnogi i sicrhau nad ydynt yn wynebu rhagor o gollfarnau. Rhaid i blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni bob amser gael eu trin fel plant yn gyntaf a throseddwyr yn ail wrth ryngweithio â gwasanaethau. Bydd Cymru'n wlad lle mae pobl ifanc yn gallu gwneud cyfraniad mwy cadarnhaol at eu cymunedau, lle ceir llai o droseddu a llai o ddioddefwyr troseddau.

2.2 Y ffordd orau o leihau troseddu a diogelu plant a phobl ifanc yng Nghymru yw drwy sicrhau bod gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli yn cydweithio. Mae angen i bob gwasanaeth, a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, fod yn fannau cefnogol lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth a chyngor priodol.

# 3. Canlyniadau

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i weithio tuag at gyflawni'r canlyniadau canlynol:

1. Caiff plant a phobl ifanc eu cynnwys mewn gwasanaethau prif ffrwd drwy gamau atal, triniaeth a chymorth o ansawdd uchel[6].
2. Mae pob gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyfannol ac aml-asiantaeth ac yn atebol am ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.
3. Ni chaiff plant a phobl ifanc o reidrwydd eu cyflwyno i'r system cyfiawnder ieuenctid a chânt eu dargyfeirio at wasanaethau sy'n atebol am eu hanghenion ac yn gallu eu diwallu.
4. Caiff ymddygiad troseddol ei herio ac ymatebir iddo mewn ffordd gymesur gan gynnig cyfle i bobl ifanc wneud iawn.
5. Cydnabyddir bod plant a phobl ifanc yn dod yn agored i niwed pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, a chânt eu diogelu rhag niwed.
6. Mae gwerthoedd, agweddau, gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr yn galluogi pobl ifanc i roi'r gorau o droseddu a byw bywydau di-drosedd.
7. Dim ond fel dewis olaf y caiff plant a phobl ifanc eu dedfrydu i'r ddalfa, a dim ond ar gyfer troseddau sydd mor ddifrifol fel nad yw dedfryd gymunedol yn ymateb priodol.
8. Mae plant a phobl ifanc yn symud yn ddidrafferth o ddedfryd cyfiawnder ieuenctid i fywyd annibynnol di-drosedd.

[6] fel gwasanaethau iechyd, tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

# 4. Egwyddorion

4.1 Yr egwyddor sylfaenol sy'n sail i'n hymagwedd at gyfiawnder ieuenctid hyd yma yw y dylid trin y rheini sy'n rhan o ymddygiad troseddol, neu sydd mewn perygl o droseddu, fel plant a phobl ifanc yn gyntaf. Mae hyn yn gyson â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn). Yn 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y Confensiwn[7].

4.2 Bydd y camau a gymerir i gyflawni'r strategaeth yn effeithiol yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Plant yw pobl ifanc yn gyntaf, a throseddwyr yn ail;
- Mae gan bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yr un rhyddid i arfer eu hawliau ag unrhyw berson ifanc arall;
- Gofynnir am farn pobl ifanc a gwrandewir arni;
- Mae gwasanaethau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chymorth aml-asiantaeth cyfannol;
- Hyrwyddir diwylliant lle mae nodi a hyrwyddo arfer effeithiol yn allweddol i wella canlyniadau i bobl ifanc;
- Caiff gwasanaethau eu dwyn i gyfrif am fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc;
- Cefnogir y sector cyfiawnder ieuenctid i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i ddeall a mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc;
- Caiff lleisiau dioddefwyr eu clywed, a rhoddir y cyfle iddynt rannu eu barn a chymryd camau adfer.

# 5. Cefndir

5.1 Mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn cynnwys nifer o sefydliadau sy'n cydweithio. Mae rhai yn canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc (o dan 18 oed) yn y system cyfiawnder ieuenctid drwy ofalu am eu lles; gwasanaethau fel iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai. Mae'r meysydd polisi hyn wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae meysydd eraill sy ddim wedi'u datganoli, fel yr heddlu a'r llysoedd, yn canolbwyntio ar weinyddu'r gyfraith i'w dwyn i gyfrif am eu trosedd.

5.2 Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr ("y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid") yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol. Mae'n goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu ac mae'n sicrhau bod y ddalfa yn ddiogel iddynt ac yn ymdrin ag achosion eu hymddygiad troseddol.

---

[7] Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i fabwysiadu'r Confensiwn yn ffurfiol fel y sail ar gyfer llunio polisi i blant a phobl ifanc.

5.3 Gan fod y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn cael ei darparu gan sefydliadau sy'n gweithredu ar lefel Cymru a'r DU, mae Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cydweithio er mwyn helpu i sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol. Mae Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn gorff a sefydlwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ei brif ddiben yw helpu Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i roi polisi ar waith sy'n atal plant a phobl ifanc yng Nghymru rhag troseddu ac aildroseddu a chraffu ar y strategaeth hon a'i gweithredu drwy ein cynllun cyflawni ar y cyd[8].

5.4 Mae'r strategaeth hon yn ategu'r egwyddorion craidd sy'n sail i'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fynd i'r afael â throseddu ieuenctid hyd yma; roedd yr egwyddorion hyn hefyd yn sail i *'Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan'* flaenorol[9] (2004), ei chynllun cyflawni dilynol (2009) a Phapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru (2012)[10].

## Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma?

5.5 Mae'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru wedi cyflawni cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf, gan leihau'r nifer sy'n dod yn rhan ohoni am y tro cyntaf yn sylweddol a lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa. Rhwng 2009 a 2013, gwelwyd gostyngiad o 56% yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf. Mae hyn yn golygu bod gan 2000 yn llai o bobl ifanc gofnod troseddol; a rhwng mis Mawrth 2010 a mis Mawrth 2013, gwelwyd nifer y plant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa yn gostwng 59%, o 121 i 50[11].

5.6 Cyflawniadau allweddol o dan Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan a'i Chynllun Cyflawni sy'n sail i'w llwyddiant hwn:

- Cefnogwyd y cynnig i ddatblygu camau adfer amgen yn lle cyhuddo unigolion a arweinir gan yr heddlu, sy'n ffordd o sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid a'u bod yn derbyn gwasanaethau prif ffrwd;
- Darparwyd arian cyfalaf i ddatblygu bloc newydd o dai ac uned alwedigaethol bwrpasol yng Nghartref Plant Diogel Hillside;
- Gweithiwyd gyda Sefydliad Troseddwyr Ifanc Hindley i addasu'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn sicrhau y gellir mynd i'r afael ag anghenion diwylliannol ac ieithyddol pobl ifanc;
- Sefydlwyd gwasanaeth mewngymorth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc;

---

[8] Mae Cynllun Corfforaethol 2014-15 a Chynllun Busnes 2014-17 y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi'r ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru drwy allbynnau allweddol sy'n ffurfio cyfraniad y Bwrdd at y cynllun cyflawni ar y cyd o dan y strategaeth hon. www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/yjb/yjb-corporate-plan-2014-15-business-plan-2014-15.pdf

[9] www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/youthoffending/?skip=1&lang=cy

[10] Ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn gwella'r ffordd y caiff anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid neu sydd eisoes yn rhan ohoni, eu diwallu, www.wales.gov.uk/consultations/people-and-communities/gpyouthjustice/?lang=en

[11] Data System Gwybodaeth Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid

- Cynorthwywyd Timau Troseddau Ieuenctid i gymryd Camau Graddedig er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Gorchymyn Ailsefydlu Ieuenctid[12];
- Treialwyd a gwerthuswyd paneli cymorth ailsefydlu mewn chwe ardal Tîm Troseddau Ieuenctid;
- Hwyluswyd awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol i sefydlu consortiwm ailsefydlu er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ailsefydlu pobl ifanc ar y cyd;
- Cefnogwyd Timau Troseddau Ieuenctid i ddod yn bartneriaethau aml-asiantaeth effeithiol.

### Beth sydd angen ei wneud?

5.7 Mae ffocws y gwaith a wnaed hyd yma i atal pobl ifanc rhag troseddu wedi arwain at lwyddiannau sylweddol o ran lleihau nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf a'r rhai sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa. Fodd bynnag, mae patrwm newydd wedi ymddangos ochr yn ochr â'r lleihad cadarnhaol hwn. Ceir bellach gyfran gynyddol o bobl ifanc sydd â llawer iawn o anghenion cymhleth sy'n golygu eu bod yn parhau i droseddu ac yn symud yn gyflym iawn drwy amrywiaeth o ddedfrydau cymunedol i'r ddalfa.

5.8 Mae cyfraddau aildroseddu yn parhau i achosi pryder. Gyda llai o blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, gall fod gan y rhai sy'n aros ynddo ymddygiad sydd wedi'i ymwreiddio a phatrymau troseddu mwy parhaus. Mae hyn yn aml yn mynd law yn llaw ag anghenion cysylltiedig a chymhleth. Gwelwyd natur fregus y grŵp hwn mewn prosiect a gynhaliwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i broffilio plant sy'n troseddu'n gyson (dros 25 o droseddau)[13]. Dangosodd y prosiect hwn fod 79% wedi ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol neu wedi cael eu cyfeirio atynt, nad oedd gan 81% unrhyw gymwysterau, bod 57% wedi ymwneud â gwasanaethau Iechyd Meddwl neu wedi cael eu cyfeirio atynt a bod gan 38% Anghenion Addysgol Arbennig[14]. Er bod cynnal y tueddiadau o ran nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf a'r rhai sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa yn parhau'n flaenoriaeth, bellach mae angen canolbwyntio mwy ar y grŵp o bobl ifanc a adewir yn y system sy'n aildroseddu'n gyson.

# 6. Blaenoriaethau

## Blaenoriaeth 1: Gweithio mewn partneriaeth a gynlluniwyd yn dda

### Canlyniadau

- Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau prif ffrwd[15] drwy gamau atal, triniaeth a chymorth o ansawdd uchel.
- Mae pob gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyfannol ac aml-asiantaeth ac yn atebol am ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

[12] Cyflwynwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008: Llywodraeth y DU
[13] Atodiad A www.wales.gov.uk/consultations/people-and-communities/gpyouthjustice/?skip=1&lang=cy
[14] Atodiad A www.wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/gpyouthjustice/?lang=en
[15] fel gwasanaethau iechyd, tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

**Cefndir**

*"Mae llawer o bobl ifanc yn troseddu a hynny dim ond er mwyn cael sylw eu teuluoedd a chymorth gan wasanaethau, ac maent yn aildroseddu er mwyn parhau i gael cymorth. Mae'n anodd rhoi'r gorau iddi."*

*Sylw gan Berson Ifanc fel rhan o'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd*[16]

6.1 Disgwyliwn i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, neu sydd eisoes yn rhan ohoni, a'r rhai sy'n gadael gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid statudol allu cael gafael ar wasanaethau cymorth ni waeth ble maent yn byw yng Nghymru. Disgwyliwn hefyd i wasanaethau gydweithio i ddarparu cymorth cofleidiol aml-asiantaeth cydgysylltiedig sy'n gyson ledled Cymru er mwyn sicrhau nad yw pobl ifanc yn dioddef oherwydd 'bylchau mewn gwasanaethau'; neu'n symud yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau lle ceir anghydfodau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth perthnasol.

6.2 Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar wasanaethau pan fydd eu hangen arnynt. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi parhau i wneud newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu trefnu er mwyn gallu darparu'r 'gwasanaethau cywir i'r bobl gywir, ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir', gan sicrhau ein bod yn ystyried yr anawsterau economaidd a wynebir gan bob un ohonom a'r hyn y gellir ei gyflawni'n ymarferol. Ond erys anghenion rhai pobl ifanc heb eu diwallu. Mae hyn yn golygu bod gennym gryn dipyn o waith i'w wneud o hyd.

**Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau?**

**Timau Troseddau Ieuenctid**

6.3 Timau amlddisgyblaethol yw Timau Troseddau Ieuenctid sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf yn cydweithio mewn partneriaethau lleol statudol[17]. Mae'r Timau hyn yn rhan o'r Awdurdod Lleol ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol am reoli plant a phobl ifanc sy'n bwrw dedfrydau a orfodwyd gan y llysoedd. Mae cyfansoddiad Tîm Troseddau Ieuenctid yn enghraifft wych o waith partneriaeth lle mae rheoli pobl ifanc, gofalu amdanynt a'u cefnogi yn galluogi'r tîm i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

6.4 Er ein bod yn credu bod Timau Troseddau Ieuenctid yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol iawn, gwyddom fod y llwybrau at lawer o wasanaethau prif ffrwd, yn enwedig tuag at ddiwedd dedfryd, a'r broses o drosglwyddo i wasanaethau oedolion, yn dameidiog. Gall hyn yn aml olygu bod pobl ifanc yn colli cymorth pan ddaw eu dedfryd statudol i ben.

**Byrddau Llywodraethu a Rheoli**

6.5 Enghraifft arall o waith partneriaeth effeithiol yw'r bwrdd rheoli a ffurfiwyd i roi cyfeiriad strategol i'r sefydliad a darparu gwasanaethau Timau Troseddau Ieuenctid. Mae partneriaid statudol y Bwrdd yn rhan greiddiol o aelodaeth y Bwrdd, ond gall hefyd gynnwys partneriaid ychwanegol y gellir eu penodi'n lleol yn unol ag anghenion ac amcanion. Yn 2014/15

---

[16] Cynigion Llywodraeth Cymru (2012) i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn gwella'r ffordd y caiff anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni, eu diwallu.

[17] Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998: Llywodraeth y DU

bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn llunio canllawiau ar y cyd wedi'u diweddaru ar bartneriaethau timau troseddau ieuenctid, a fydd yn nodi sut y dylent weithredu, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfrifoldebau partneriaid lleol a threfniadau llywodraethu.

### Llywodraeth Cymru – gweithio ar draws adrannau

6.6 Dim ond gwella a wna gwasanaethau i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni, os bydd pob adran yn cydweithio'n effeithiol. Byddwn yn canolbwyntio ar brif feysydd Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid eu darparu, sef: addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; iechyd meddwl; camddefnyddio sylweddau, tai, gofal cymdeithasol a'r Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid.

### Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

6.7 Dengys ymchwil fod profiad addysgol person ifanc yn ffactor sylweddol o ran ei risg o ddod yn rhan o ymddygiad troseddol. Ceir cysylltiad agos rhwng ymddygiad troseddol ac ymddieithrio o addysg. Mae tangyflawni yn yr ysgol, ymddieithrio, sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael a chyfradd sylweddol o anghenion addysgol arbennig yn amlwg ymhlith poblogaeth y system cyfiawnder ieuenctid. Mae ceisio ennyn diddordeb pobl ifanc sy'n troseddu mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn aml yn allweddol i gyflawni canlyniadau llwyddiannus a lleihau achosion o aildroseddu[18]. Mae angen rhagor o gymorth er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yn gallu cael gafael ar gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

6.8 Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwella deilliannau dysgu i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu aildroseddu. Byddwn yn eu cefnogi drwy wneud y canlynol: nodi a lledaenu ymyriadau ac arferion y profwyd eu bod yn effeithiol mewn sefyllfa cyfiawnder ieuenctid; gweithio gyda darparwyr hyfforddiant ac addysg er mwyn gwella ansawdd ac amrywiaeth y ddarpariaeth hyfforddiant ac addysg sydd ar gael a'r gallu i gael gafael arni; sefydlu a hyrwyddo llwybrau diogel at gyflogaeth y gellir eu cyflawni; a chefnogi'r gwaith o atal a lleihau nifer yr achosion o droseddu ac aildroseddu drwy annog proses aml-asiantaeth a chyfannol o gydgysylltu darpariaeth i gefnogi pobl ifanc nad ydynt yn gwneud cynnydd cadarnhaol.

### Iechyd Meddwl

6.9 I bobl ifanc â salwch meddwl, gall mynediad amserol at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Thimau Troseddau Ieuenctid (CAMHS), yn ogystal â chydberthnasau gwaith agos rhyngddynt, helpu i nodi anghenion a'u galluogi i gael gafael ar wasanaethau yn gynt. Drwy gyswllt a gweithgarwch dargyfeiriol, gellir atal pobl ifanc sy'n agored i niwed rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Yn yr un modd, yn aml bydd gan y rheini sydd eisoes yn rhan o'r system lawer o broblemau cymhleth. Felly, mae angen i'r asesiad o angen a gynhelir gan weithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill sicrhau y gellir cael gafael ar wasanaethau cyffredinol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn parchu eu hurddas, pa le bynnag y mae'r unigolyn yn y system, o'r adeg y caiff ei arestio i gychwyn, i'w gyfnod yn y ddalfa a'i gyfnod ailsefydlu, gan gefnogi'r person ifanc yn dilyn ei ddedfryd.

[18] Leech, J. (2011) *The education of young people who offend: Welsh Research and Practice Briefing*. Dartington: Research in Practice.

6.10 Er mwyn galluogi Timau Troseddau Ieuenctid i gefnogi pobl ifanc i gael gafael ar driniaeth a gwasanaethau ar gyfer problemau iechyd meddwl a nodwyd, cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd ac anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, mae angen y canlynol:

- Amser wedi'i neilltuo gan weithiwr proffesiynol CAMHS priodol a nodwyd yn glir i gefnogi pob Tîm Troseddau Ieuenctid, ochr yn ochr â thimau CAMHS fforensig Haen 3.
- Cysylltiadau cryfach rhwng CAMHS a Thimau Troseddau Ieuenctid er mwyn sicrhau y gellir cael gafael ar help a chymorth perthnasol ac amserol i bobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o droseddu a chyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol.

6.11 Hefyd, dylid darparu gwasanaethau mewngymorth CAMHS i bobl ifanc mewn lleoliadau diogel er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn gallu cael gafael ar yr un cymorth a gwasanaethau a'r rheini yn y gymuned.

## Camddefnyddio Sylweddau

6.12 Mae'r gallu i gael gafael ar y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir yn allweddol er mwyn lleihau effaith camddefnyddio sylweddau. Mae'r gydberthynas rhwng troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r effaith ar iechyd personol yn amlwg iawn ac fe'i deellir yn dda. Dylai'r gallu i gael gafael ar yr asiantaethau hynny a sefydlwyd ac a ariennir i helpu pobl ifanc sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol fod yn seiliedig ar asesiad o angen. Dylai'r llwybrau atgyfeirio fod yn syml a dylai amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n debygol o ddod ar draws pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol sicrhau eu bod yn eu deall. Mae hyn yn ymestyn y tu hwnt i Dimau Troseddau Ieuenctid a gweithwyr cymdeithasol. Dylai gynnwys nyrsys mewn ysgolion a chwnselwyr, gweithwyr ieuenctid a datblygu chwaraeon, ac athrawon â dyletswyddau gofal bugeiliol.

6.13 Mae cymorth ar gyfer rhaglenni ataliol mewn ysgolion yn hollbwysig i hyrwyddo negeseuon clir.

## Tai

6.14 Bydd rhai pobl ifanc nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn byw gyda'u rhieni neu eu gofalwyr mwyach ac y bydd angen llety a chymorth arnynt i fyw'n annibynnol. Gall ddiffyg llety priodol mewn rhai achosion ddylanwadu ar ganlyniadau yn y llys; fel penderfynu p'un a ddylid caniatáu mechnïaeth. Ceir hefyd achosion o hyd lle nad yw pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa yn gwybod ble y maent yn mynd i fyw neu lle maent yn defnyddio lleoliadau gwely a brecwast hyd nes y bydd rhywbeth mwy addas ar gael. Mae cael rhywle i fyw yn angen sylfaenol ac os nad yw hyn ar waith, mae gweithwyr cyfiawnder ieuenctid yn wynebu cryn anhawster i fynd i'r afael ag anghenion eraill ac ymddygiad troseddol. Rhaid cydnabod hefyd y gall dychwelyd i gartref y teulu gynyddu natur fregus rhai pobl ifanc ymhellach.

6.15 Cyhoeddwyd Bil Tai newydd ar 18 Tachwedd 2013 sy'n cyflwyno nifer o ddiwygiadau a amlinellir yn *'Cartrefi o Gymru: Papur Gwyn ar gyfer bywyd gwell a chymunedau gwell'*. Mae'n cynnwys dyletswyddau cryfach a fydd yn sicrhau y caiff digartrefedd ei atal:

- Cyflwyno dyletswydd gorfforaethol newydd i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol er mwyn helpu pobl i osgoi digartrefedd;
- Cadw'r diffiniad o ddigartrefedd yr un fath, ond ymestyn y diffiniad o 'risg o ddigartrefedd' o 28 diwrnod i 56 diwrnod;

- Caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd o ran digartrefedd drwy gynnig tai sector rhent preifat o ansawdd uchel.

## Gofal Cymdeithasol

6.16 Bydd nifer sylweddol o bobl ifanc sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder, ynghyd â'u teuluoedd, wedi dod i gysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol rywbryd yn ystod eu bywydau. Nid oes angen i'r rhyngwyneb rhwng Timau Troseddau Ieuenctid a gofal cymdeithasol plant fod yn anodd ei weithredu. Clywn o hyd am achosion lle nad oes llety wedi cael ei drefnu i 'blentyn sy'n derbyn gofal' ar y diwrnod y caiff ei ryddhau o'r ddalfa a lle mae gwasanaethau cymdeithasol plant yn cau achosion am fod Tîm Troseddau Ieuenctid yn ymwneud â hwy. Ni ddylai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid orfod mynd i'r afael ag anghenion gofal cymdeithasol pobl ifanc ar eu pen eu hunain, yn enwedig pan ystyrir bod person ifanc yn derbyn gofal, neu fod angen gofal a chymorth arno. Dylai Cytundebau Lefel Gwasanaeth fod ar waith yn lleol gan nodi'n glir rôl pob asiantaeth sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu gofal a chymorth i bobl ifanc.

6.17 Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, pan gaiff ei deddfu ym mis Ebrill 2016, yn rhoi blaenoriaethau'r Gweinidogion a amlinellir yn y Papur Gwyn, *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu ar waith*. Mae amcanion allweddol wrth wraidd y papur hwn. Yn gyntaf, gwella canlyniadau lles i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, yn ogystal â gofalwyr y mae angen cymorth arnynt; ac yn ail, diwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cefnogi pobl o bob oedran fel rhan o deuluoedd a chymunedau.

6.18 Felly, bydd y ddeddfwriaeth yn gwneud y canlynol:

- Rhoi mwy o hawl i blant gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth.
- Cefnogi pwyslais cynyddol ar atal ac ymyrryd yn gynnar.
- Gosod dyletswyddau ychwanegol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i atal a lleihau'r angen am ofal a chymorth i bobl yn eu hardal. Mae annog plant i beidio â chyflawni troseddau a lleihau'r angen am achosion troseddol yn erbyn plant yn flaenoriaethau penodol ar gyfer y gwasanaethau ataliol hyn.
- Sicrhau bod lles unigolyn,[19] a sut mae hyn yn cyfrannu at wella canlyniadau wrth wraidd y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod partneriaid diogelu lleol yn cael eu cefnogi gan arweinyddiaeth fwy cadarn a fframwaith cryfach a mwy effeithiol ar gyfer cydweithredu aml-asiantaeth.

6.19 Ni ddisgwylir i Awdurdodau Lleol weithredu ar eu pen eu hunain nac i ddarparu'r holl wasanaethau hyn eu hunain, ond disgwylir iddynt chwarae rôl arweiniol wrth nodi, cefnogi a, lle y bo'n briodol, sicrhau amrywiaeth o wasanaethau i gyflawni canlyniadau gwell. Mae cydweithredu aml-asiantaeth a gwaith partneriaeth effeithiol yn hollbwysig er mwyn helpu i ailintegreiddio unigolion i mewn i'w cymunedau a hwyluso'r broses honno.

[19] www.wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=en

### Y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid

6.20 Mae Cronfa Atal Troseddau Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau sydd â'r nod o ddargyfeirio pobl ifanc oddi wrth droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant, hamdden, y celfyddydau, chwaraeon, cyfiawnder adferol a mentrau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

6.21 Ers mis Ebrill 2013, darperir y Gronfa drwy gydweithrediad rhanbarthol. Mae'r Gronfa'n parhau i gefnogi prosiectau sy'n atal pobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu.

6.22 Caiff arian ei ddyrannu ar sail ôl-troed rhanbarthol ar draws chwe Phartneriaeth Ôl-troed Ranbarthol yng Nghymru. Caiff pob ardal benderfynu pa brosiectau i'w cynnal yn unol â'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r arian gan mai'r Partneriaethau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer eu hardal. Defnyddir fformiwla sefydledig i gyfrifo dyraniadau yn seiliedig ar y ganran o droseddau ieuenctid a gofnodwyd, a'r gyfradd gyffredinol o droseddau a gofnodwyd.

6.23 Rhaid i bob prosiect fod yn berthnasol i atal a lleihau troseddau ieuenctid a sicrhau canlyniadau cydweithredol sy'n cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar draws ystod eang o feysydd â blaenoriaeth cysylltiedig fel prosiectau a chynlluniau tlodi plant, iechyd meddwl, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau.

## Blaenoriaeth 2: Ymyrryd yn gynnar, atal a dargyfeirio

### Canlyniadau

- Ni chaiff plant a phobl ifanc o reidrwydd eu cyflwyno i'r system cyfiawnder ieuenctid a chânt eu dargyfeirio at wasanaethau sy'n atebol am eu hanghenion ac yn gallu eu diwallu.
- Caiff ymddygiad troseddol ei herio ac ymatebir iddo mewn ffordd gymesur gan gynnig cyfle i bobl ifanc wneud iawn.

### Cefndir

*"Mae'r hyn rwyf wedi bod drwyddo ers cyflawni fy nhroseddau wedi bod yn sioc i'r system. Mae Triage wedi helpu i godi fy ymwybyddiaeth o'r hyn a allai ddigwydd i mi yn y dyfodol os byddaf yn aildroseddu. Dydw i wir ddim eisiau cofnod troseddol".*

*Sylw gan Berson Ifanc fel rhan o'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd*[20]

6.24 Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid at atal plant a phobl ifanc rhag troseddu yn amlwg yn y gwaith a wnaed gennym o dan y strategaeth flaenorol. At hynny, yn 2008, gwnaethom gyhoeddi *'Atal Troseddau Ieuenctid yng Nghymru; canllawiau strategol'* gan ddisgrifio'r tirlun atal ar y pryd a rhoi canllawiau i'r rheini sy'n sefydlu ac yn rhedeg rhaglenni gyda'r nod o atal pobl ifanc rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

[20] Llywodraeth Cymru (2012) Cynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni.

6.25 Ers 2008, gwelwyd dau ddatblygiad pwysig a fydd yn parhau i lywio gwaith atal yng Nghymru. Y datblygiad cyntaf yw cyfraniad cynyddol gan wasanaethau plant ac ieuenctid Awdurdodau Lleol mewn rhaglenni atal wedi'u targedu. Er enghraifft, mae mentrau a arweinir gan Lywodraeth Cymru, fel Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd, wedi cynnwys cyfeiriadau penodol at weithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid.

6.26 Yn ail, yn unol â'r gydberthynas waith sy'n datblygu rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu, gwelwyd datblygiadau yn y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud ynghylch ymateb i bobl ifanc sydd, am ba reswm bynnag, yn troseddu am y tro cyntaf. Mae rhaglenni wedi datblygu, fel model Bureau a model Triage a gefnogir gan y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid, sy'n ffurfioli'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd ac ymyriadau wedi'u targedu ar adeg arestio. Mae'r fframwaith penderfynu y tu allan i'r llys[21] hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Heddlu ddelio ag achosion o droseddu am y tro cyntaf nad oes angen eu herlyn yn y llys yn gyflym ac mewn ffordd gymesur.

6.27 Credwn mai atal ar bob ffurf yw'r allwedd i sicrhau nad yw pobl ifanc yn dod yn rhan o'r system gyfiawnder. Felly, byddwn yn canolbwyntio ar helpu gwasanaethau plant a gwasanaethau cyfiawnder troseddol i ddatblygu modelau a dulliau gweithredu cyson i atal a dargyfeirio ar y tair haen ganlynol:

- Haen 1 – ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau atal;
- Haen 2 – rhaglenni atal wedi'u targedu gan dimau troseddau ieuenctid;
- Haen 3 – camau amgen yn lle cyhuddo a dargyfeirio.

### Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau?

#### Haen 1 – ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau atal

#### Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd

6.28 Y ffordd orau o ddiogelu plant a phobl ifanc rhag y ffactorau sy'n cynyddu'r risg o ddod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol yw sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau cymorth cywir sy'n gallu cwrdd â'u hangenion. Mae'r ffactorau hyn nid yn unig yn gysylltiedig â throseddu ond maent hefyd yn gysylltiedig ag eithrio a bod yn agored i niwed, ac onid eir i'r afael â hwy yn gynnar, gallant arwain at oblygiadau dinistriol i'r unigolyn, ei deulu a'r gymuned ehangach.

6.29 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ac yn cyfrannu at nifer i fentrau a gynlluniwyd er mwyn helpu unigolion a theuluoedd i gael yr help priodol cyn gynted â phosibl ac atal teuluoedd rhag wynebu argyfwng. Er enghraifft, cynlluniwyd Teuluoedd yn Gyntaf i wella canlyniadau i deuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi. Mae hefyd yn hyrwyddo'r broses o ddatblygu modelau newydd o waith integredig er mwyn sicrhau cymorth gwell i deuluoedd.

[21] Cyflwynwyd gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi 2012

6.30 Teuluoedd yn Gyntaf fu'r sbardun ar gyfer ein hymagwedd gyfan at deuluoedd drwy sefydlu Tîm o Amgylch y Teulu a Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd ym mhob Awdurdod Lleol. Cymru yw'r unig wlad yn y DU sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol weithredu model Tîm o Amgylch y Teulu. Mae hyn yn golygu bod angen i sefydliadau gydweithio i roi teuluoedd wrth wraidd eu gwaith cynllunio a chyflawni, er mwyn helpu teuluoedd i feithrin gwydnwch. Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cysylltu ac yn hyrwyddo mynediad ehangach at wasanaethau ac mae ganddi drefniadau cyswllt a gweithio mewn partneriaeth cryf ar waith gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, Partneriaethau Diogelwch Cymuned a'r gwasanaeth Prawf.

## Gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc a theuluoedd

6.31 Credwn y gall nodi a llywio'u ffordd drwy'r amryw wasanaethau sy'n bodoli mewn ardaloedd lleol fod yn dasg frawychus i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Felly, rydym wedi sicrhau bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn elfen allweddol o raglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru yn darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor diduedd am ddim i holl rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc rhwng 0 ac 20 oed, yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy. Mae'n darparu gwasanaeth eang a gwerthfawr i rieni a gofalwyr.

## Haen 2 – Rhaglenni Atal wedi'u Targedu gan Dimau Troseddau Ieuenctid

6.32 Bydd rhai pobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef oherwydd 'bwlch mewn gwasanaeth' am fod eu hanghenion yn rhy gymhleth i'w hintegreiddio'n hawdd i mewn i wasanaethau cyffredinol ond nad ydynt wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol. Oni chânt eu nodi a'u cefnogi, mae'r bobl ifanc hyn yn fwy tebygol o ymddieithrio o'r gwasanaethau hyn a bod wedi'u dadrithio. Mewn achosion o'r fath credwn fod rhaglenni atal aml-asiantaeth yn briodol. Timau Troseddau Ieuenctid yw'r prif ddarparwyr gwasanaethau i nodi ac atal plant a phobl ifanc rhag troseddu. Fodd bynnag, yn aml caiff y gwaith hwn ei wneud mewn partneriaeth ag eraill o'r sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus.

6.33 Rydym am adeiladu ar lwyddiant rhaglenni atal wedi'u targedu fel Paneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid a Rhaglenni Cynhwysiant Ieuenctid. Felly, byddwn yn parhau i annog partneriaethau aml-asiantaeth i gymryd camau priodol i dargedu'r unigolion hynny sydd mewn perygl o gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol, neu sydd â nifer o ffactorau yn eu bywydau sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn troseddu. Er mwyn gwneud hyn, rydym am weld gwelliannau parhaus mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth â gwasanaethau Haen 1.

## Haen 3 – Camau Amgen yn lle Cyhuddo Unigolion a Arweinir gan yr Heddlu a Dargyfeirio

6.34 Pan fydd person ifanc yn troseddu am y tro cyntaf neu'n cyflawni trosedd lefel isel, mae angen ffyrdd effeithiol o ddelio ag ef yn y gymuned. Po fwyaf y gallwn atal pobl ifanc rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, y mwyaf y gallwn atal y risg y byddant yn mynd i ragor o helynt yn y dyfodol. Ar adeg arestio, mae camau amgen yn lle cyhuddo unigolion a arweinir gan yr Heddlu[22] yn ffordd o sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn dod yn rhan

[22] Mae'r ffordd hon o weithredu yn ddewis amgen i gyhuddo unigolion gan yr heddlu, a rhydd gyfleoedd i'r rheini y mae trosedd yn effeithio arnynt yn uniongyrchol gyfathrebu a chytuno ar sut i ymdrin â'r drosedd a'i chanlyniadau. Caiff y person ifanc y cyfle i ymddiheuro am droseddu a deall effaith hyn ar y dioddefwr.

o’r system cyfiawnder ieuenctid a’u bod yn derbyn gwasanaethau prif ffrwd er mwyn cael cymorth y mae angen dybryd amdano. Yn aml dim ond pan fydd rhai plant a phobl ifanc wedi cyflawni trosedd, ac wedi dod i sylw’r Heddlu, y bydd anghenion cudd neu heb eu nodi yn cael eu canfod. Er enghraifft, camddefnyddio sylweddau neu broblemau emosiynol ac iechyd meddwl neu’r ffaith bod llawer o bobl ifanc hefyd yn ddioddefwyr eu hunain, ar ôl tystio ymddygiad troseddol gartref gan rieni neu frodyr neu chwiorydd, neu ddod o dan ddylanwadu negyddol eu cyfoedion.

6.35 Datblygodd modelau Bureau a Triage i ffurfioli’r gydberthynas rhwng yr Heddlu a Thimau Troseddau Ieuenctid a gwella cysondeb wrth wneud penderfyniadau ar adeg arestio. Ond mae’r mentrau hyn wedi dangos canlyniadau cadarnhaol. Yn yr ardaloedd dan sylw, mae nifer gynyddol lai o unigolion yn dod yn rhan o’r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf ac mae nifer yr unigolion sy’n aildroseddu ymhlith y rheini sydd ar gamau cynnar y system wedi lleihau. Bydd manteision y fframwaith penderfynu y tu allan i’r llys yn atgyfnerthu ymhellach yr arfer da sy’n bodoli ac yn sicrhau bod canlyniadau’n gymesur i’r drosedd a gyflawnwyd ac yn effeithiol o ran lleihau’r risg o droseddu eto.

6.36 Un o nodweddion pwysig mentrau fel Bureau a Triage a’r ffordd y maent yn gweithio yn y fframwaith penderfynu y tu allan i’r llys newydd yw’r ffocws ar gymryd camau adfer amgen a arweinir gan yr heddlu i ymdrin â throseddau lefel isel. Mae Cyfiawnder Adferol yn ddull gweithredu sy’n canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr a’r rheini sydd wedi cyflawni trosedd, yn ogystal â’r gymuned ehangach. Os yw’n llwyddiannus, mae’n galluogi’r unigolyn i unioni a gwneud iawn am y niwed a achoswyd gan ymddygiad troseddol heb ddioddef y stigma a’r allgau economaidd sy’n gysylltiedig â chofnod troseddol.

6.37 Mae ardaloedd yng Nghymru o hyd nad oes ganddynt unrhyw fentrau fel Bureau neu Triage, felly mae llawer o waith i’w wneud o hyd er mwyn gwella tegwch penderfyniadau ar adeg arestio a sicrhau y caiff pobl ifanc eu dargyfeirio at wasanaethau sy’n gallu diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae’r gwaith hwn yn fwy heriol. Er bod y fframwaith penderfynu y tu allan i’r llysoedd yn adnodd pwysig i’n helpu i gyflawni ein nod, byddwn hefyd yn gweithio gyda’r Heddlu a phartneriaid eraill i sicrhau bod y wybodaeth, y canllawiau a’r hyfforddiant cywir yn cael eu darparu i weithwyr proffesiynol. Bydd cymorth ariannol ac ymarferol yn parhau i gael ei roi mewn ardaloedd sy’n dymuno sefydlu mentrau fel Bureau a Triage; gan ganolbwyntio’n benodol ar sut y gellir cyflawni mentrau o’r fath mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell.

## Blaenoriaeth 3: Lleihau achosion o aildroseddu

### Canlyniad

- Cydnabyddir bod plant a phobl ifanc yn dod yn agored i niwed pan fyddant yn dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol, a chânt eu diogelu rhag niwed.
- Mae gwerthoedd, agweddau, gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr yn galluogi pobl ifanc i roi’r gorau i droseddu a byw bywydau di-drosedd.

**Cefndir**

*"Fe wnes i ddod yn ôl i mewn i'r system am nad oedd gennyf gefnogaeth fy nheulu wedi imi ddod allan ohoni – fe wnaethon nhw fy ngwrthod ar ôl fy nhrosedd gyntaf. Rwy'n benderfynol o beidio aildroseddu, ac adennill cefnogaeth fy nheulu – dyna'r cyfan dw i eisiau".*

*Sylw gan Berson Ifanc fel rhan o'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd*[23]

6.38 Mae ymyrraeth gynnar a dulliau atal effeithiol wedi golygu bod nifer sylweddol lai o bobl ifanc yn dod yn rhan o'r system. Mae hyn yn golygu bod anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu cyn iddynt ddatblygu patrymau troseddu sydd wedi ymwreiddio. O ganlyniad, mae'r bobl ifanc sydd ar ôl yn y system yn fwy tebygol o fod ag anghenion mwy cymhleth ac o aildroseddu.

6.39 Mae llai o bobl ifanc yn y system yn golygu bod mwy o hyblygrwydd i wasanaethau ddarparu cymorth ac ymyriadau dwysach. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn golygu bod ardaloedd unigol bellach yn wynebu heriau o ran maint wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer nifer gymharol fach o bobl ifanc. Mae deall a mynd i'r afael ag ymddygiad ac anghenion cymhleth y bobl ifanc sydd ar ôl yn y system yn flaenoriaeth.

**Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau?**

6.40 Disgwyliwn i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid i gael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Ni ddylent, o dan unrhyw amgylchiadau, wynebu anfantais bellach na bod yn agored i niwed oherwydd eu troseddau. Bydd gwasanaethau iechyd, tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn hygyrch. Byddwn yn gweithio i oresgyn unrhyw rwystrau systemig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar sail anghenion y person ifanc yn hytrach na'r ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u darparu. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cefnogi rôl Timau Troseddau Ieuenctid a gwella'r ffordd y caiff dedfrydau eu rheoli;
- Deall achosion o aildroseddu a mynd i'r afael ag anghenion cymhleth;
- Trosglwyddo o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion – gwella'r cysylltiadau â gwasanaethau oedolion a'r ffordd y caiff pobl ifanc eu trosglwyddo iddynt.

## Rôl Timau Troseddau Ieuenctid a'r ffordd y caiff dedfrydau eu rheoli

6.41 Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn enghraifft wych o waith aml-asiantaeth effeithiol sy'n seiliedig ar anghenion. Er mwyn i ymarferwyr fynd i'r afael â'r anghenion hyn a rheoli a chefnogi pobl ifanc yn effeithiol, mae angen sicrhau bod fframwaith asesu a chynllunio cyfredol ar waith. Mae asesiadau o ansawdd uchel yn gonglfaen i arfer cyfiawnder ieuenctid a gallant helpu i leihau achosion o aildroseddu. Mae'r fframwaith presennol, sef Asset a'i adnoddau cysylltiedig, sydd wedi bod ar waith ers i Dimau Troseddau Ieuenctid gael eu sefydlu yn gyntaf, bellach wrthi'n cael eu diweddaru gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Gwneir hyn mewn ymateb i natur newidiol arfer cyfiawnder ieuenctid a datblygiadau mewn polisi, ymchwil ac arfer.

---

[23] Cynigion Llywodraeth Cymru (2012) i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn gwella'r ffordd y caiff anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni, eu diwallu.

6.42 Mae'r fframwaith newydd, sef *AssetPlus* yn rhoi barn a phrofiadau pobl ifanc a theuluoedd wrth wraidd arfer ac yn sicrhau mwy o gysondeb wrth asesu, cynllunio ymyriadau a rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae'n cynnwys ffocws o'r newydd ar farn broffesiynol ac yn anelu at nodi cryfderau, anghenion a phroblemau pobl ifanc a hwyluso'r broses o gynllunio ymyriadau priodol yn y gymuned ac yn y ddalfa.

## Deall ymddygid troseddol ac anghenion cymhleth

6.43 Mae'r lleihad sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn dangos bod arfer cyfiawnder ieuenctid presennol wedi bod yn addas i'r rhan fwyaf o bobl ifanc. Fodd bynnag, erys grŵp craidd o bobl ifanc sy'n parhau i aildroseddu er gwaethaf ymdrechion gan wasanaethau i'w cynnwys a'u helpu i fyw bywydau di-drosedd. Mae angen dull gweithredu gwahanol ar y bobl ifanc hyn.

6.44 Drwy ein gwaith i broffilio nodweddion pobl ifanc sy'n troseddu'n gyson, gwyddom fod niferoedd sylweddol ohonynt wedi ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau a'u bod hefyd wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl. Nodwedd arall oedd yn peri pryder oedd y ffaith bod dros draean ar y gofrestr amddiffyn plant, neu wedi bod arni, eu bod wedi cael profiad o ddianc o gartref neu aros i ffwrdd o gartref, a'u bod wedi'u nodi'n unigolion ag anghenion addysgol arbennig.

6.45 O ran anawsterau emosiynol ac iechyd meddwl, nodir bod gan lawer o bobl ifanc anghenion emosiynol ac iechyd meddwl, sydd y tu hwnt i gylch gwaith CAMHS; fel y rheini sy'n gysylltiedig â thrawma ac ymlyniad yn ystod plentyndod. Yn aml dim ond cyfnod byr o amser sydd gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid i ymgysylltu â phobl ifanc a gweithio gyda hwy. Felly, mae gallu deall cymhlethdod anghenion person ifanc a sut i ymateb fesul achos yn hollbwysig.

6.46 Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd datblygiadau mewn gwybodaeth a thystiolaeth sy'n ein galluogi i ddeall datblygiad cwrs bywyd yn well a sut mae hyn yn gysylltiedig â throseddu. Sylweddolwn fod angen i ni wneud mwy er mwyn galluogi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i ddeall y cydadwaith cymhleth o ffactorau sy'n gwneud i berson ifanc aildroseddu. Credwn fod sicrhau newid hirdymor mewn ymddygiad person ifanc heb fynd i'r afael â'i anghenion uniongyrchol na'r anghenion hynny sy'n deillio o'i ddatblygiad yn ystod plentyndod cynnar yn her sylweddol. Drwy'r gwaith uniongyrchol y mae'n ei wneud gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi rhoi cymorth ymarferol i ardaloedd lleol gynnal dadansoddiad manwl o garfannau mawr o bobl ifanc. Mae hyn yn galluogi'r rheini sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau i ddeall yn well y bobl ifanc a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda hwy a thargedu adnoddau'n fwy effeithiol.

6.47 Ym mis Ebrill 2013, cychwynnodd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid hefyd ar daith i ddatblygu proses newydd o reoli achosion ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru. Bydd y broses hon yn darparu fframwaith a fydd yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith perthynol gyda phobl ifanc a threfnu ymyriadau mewn ffordd sy'n ystyrlon i'r person ifanc ac sydd fwyaf tebygol o gyflawni newid cadarnhaol. Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn yn parhau i ddatblygu a threialu'r broses hon, a chaffael dysgu drwy fonitro a gwerthuso. Os gwelir ei bod yn fuddiol, byddwn yn sicrhau ei bod ar gael yn ehangach.

### Trosglwyddo o Wasanaethau Ieuenctid i Wasanaethau Oedolion – gwella'r cysylltiadau â'r system oedolion a'r ffordd y caiff pobl ifanc eu trosglwyddo iddi

6.48 Mae gan y rheini sy'n aros yn y system cyfiawnder ieuenctid nid yn unig natur fregus fwy cymhleth, ond fel arfer maent hefyd yn hŷn; gyda chyfran lawer fwy o bobl ifanc 16 a 17 oed. Felly, bydd llawer o'r bobl ifanc hyn yn trosglwyddo i wasanaethau oedolion; yn y system cyfiawnder troseddol yn ogystal â gwasanaethau eraill fel trosglwyddo o CAMHS i ddarpariaeth iechyd meddwl oedolion. Mae trosglwyddo o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn adeg hollbwysig i'r person ifanc dan sylw yn ogystal â gweithwyr proffesiynol y mae'n rhaid iddynt sicrhau lles y person ifanc a sicrhau ei fod yn peri cyn lleied o risgiau â phosibl i'r cyhoedd.

6.49 Bydd gwella'r broses drosglwyddo yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl ifanc wrth iddynt gael eu cefnogi ar adeg fregus yn eu bywydau. Bydd gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rhannu gan Dimau Troseddau Ieuenctid i wasanaethau prawf, carchardai oedolion a gwasanaethau eraill yn arwain at asesiadau mwy hyddysg, ymyriadau cyson a datblygiadau wrth fynd i'r afael â'u hanghenion. Bydd hyn, yn ei dro, yn cael effaith uniongyrchol ar y gwaith o leihau achosion o aildroseddu. Mae proses drosglwyddo lwyddiannus yn cynnwys nifer o sefydliadau yn cydweithio, gan hyrwyddo partneriaeth a dysgu, a chael effaith gadarnhaol ar y system gyfiawnder gyfan.

6.50 Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n ymwneud â throsglwyddo person ifanc o'r system ieuenctid i'r system oedolion yn ymwybodol o'r egwyddorion a'r prosesau sydd eu hangen ar gyfer proses drosglwyddo effeithiol ac yn cael cymorth i ddeall a chymhwyso'r egwyddorion a'r prosesau hynny. Disgwyliwn i'r rheini sy'n ymwneud â'r broses o drosglwyddo person ifanc i'r system oedolion fod yn ymwybodol o'r fframwaith ieuenctid i oedolion a'i adnoddau cysylltiedig.

## Blaenoriaeth 4: Gwneud defnydd effeithiol o'r ddalfa ar gyfer pobl ifanc

### Canlyniad

- Dim ond fel dewis olaf y caiff plant a phobl ifanc eu dedfrydu i'r ddalfa, a dim ond ar gyfer troseddau sydd mor ddifrifol fel nad yw dedfryd gymunedol yn ymateb priodol.

### Cefndir

*"Byddai'n syniad da sicrhau bod mwy o gymorth yn cael ei roi i bobl ifanc sy'n troseddu ac yn mynd i'r ddalfa a'u hatal rhag aildroseddu."*

*Sylw gan Berson Ifanc fel rhan o'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd*[24]

6.51 Mae'r lleihad sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa wedi bod yn rhannol oherwydd nifer o newidiadau deddfwriaethol a gwelliannau mewn arfer a threfniadau cydweithio gwasanaethau diogel a gwasanaethau cymunedol. Rydym am barhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed a symud tuag at wireddu ein dyhead i Gymru fel gwlad lle nad oes angen y ddalfa ar gyfer pobl ifanc, am nad oes unrhyw berson ifanc yn cyflawni troseddau sy'n ddigon difrifol i warantu hyn.

[24] Cynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni.

6.52 Er mai'r gwir amdani yw efallai mai dyhead fydd gwlad heb ddalfa bob amser, ond erys yn egwyddor arweiniol bwysig i sicrhau bod llai o bobl ifanc o unrhyw oedran yn cael eu dedfrydu i'r ddalfa. Bydd adegau pan fydd pobl ifanc yn cyflawni troseddau sydd mor ddifrifol fel mai'r unig opsiwn yw eu tynnu allan o'r gymuned er mwyn gweithredu er budd eu dioddefwyr, y cyhoedd a nhw eu hunain. Dim ond mewn ffordd gynnil ac fel y dewis olaf y dylid defnyddio'r ddalfa. Pan fydd pobl ifanc yn cael eu remandio neu eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa, dylid eu cadw mewn amgylchedd sydd nid yn unig yn herio eu hymddygiad troseddol ond sydd hefyd yn bennaf yn gweithio tuag at eu hailintegreiddio a'u hailsefydlu'n effeithiol drwy wella eu cyflawniad addysgol gwell a rhoi sylw i'w anghenion diwylliannol, ieithyddol ac iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai'r rheini sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc sy'n cael eu cadw gynnal ffocws cyfartal ar ailsefydlu ac ailintegreiddio'r person ifanc i mewn i'r gymuned. Er mai ymddygiadau'r person ifanc yn y gorffennol sydd wedi peri iddo gael ei gadw, bydd dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dyfodol yn rhoi cyfle gwell iddo ddilyn bywyd di-drosedd ar ôl cael ei ryddhau.

**Sut y byddwn yn cyflawni ein nodau?**

### Lleoli pobl ifanc

6.53 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar hyn o bryd yn gyfrifol am gomisiynu ystad ddiogel benodol i bobl ifanc ac am ddarparu llety diogel i blant a phobl ifanc sydd ar remand neu sydd wedi'u dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa. Mae hyn yn cynnwys penderfynu pa sefydliad carcharu y caiff y person ifanc ei anfon iddo. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli yn y sefydliad sydd fwyaf addas i ddiwallu eu hanghenion a aseswyd ac sy'n ystyried risgiau ac amgylchiadau unigol y person ifanc.

6.54 Credwn fod lleoli unigolyn yn agos i'w gartref yn ffactor allweddol o ran ei ailintegreiddio a'i ailsefydlu. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r Bwrdd yn lleoli person ifanc o Gymru mewn sefydliad yng Nghymru; naill ai Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 y Parc neu Gartref Plant Diogel Hillside yn y de. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i bobl ifanc yn y gogledd ar hyn o bryd. I'r bobl ifanc hyn, yn Lloegr y mae'r llety diogel agosaf, sef Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 Hindley. Fodd bynnag, wrth gynllunio patrwm yr ystad ddiogel, rhaid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd hefyd wneud penderfyniadau strategol ynghylch y gydberthynas rhwng agosrwydd daearyddol a ffactorau eraill fel y nifer llai o bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa. Felly, er mwyn hybu lles plant a phobl ifanc yng Nghymru yn well a'u hailsefydlu'n effeithiol, rhaid i ni ystyried dull gweithredu sy'n aberthu agosrwydd daearyddol am fuddsoddiad cynyddol mewn darpariaeth mewngymorth benodol sy'n ddiwylliannol briodol.

6.55 Fel rhan o Gynllun Cyflawni 2009 Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, gwnaethom gydweithio â Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 Hindley er mwyn datblygu darpariaeth well i fynd i'r afael â'r anawsterau ymarferol sydd wedi wynebu pobl ifanc o Gymru mewn sefydliadau diogel yn Lloegr yn hanesyddol. O ganlyniad, mae dynion ifanc rhwng 15 a 17 oed, lle y bo'n briodol, yn cael eu lleoli yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 Hindley.

6.56 Cydnabyddwn y bydd adegau weithiau pan fydd angen lleoli pobl ifanc mewn sefydliadau eraill yn Lloegr sy'n fwy addas i ddiwallu eu hanghenion. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd, yn ogystal â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ar lefel strategol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn trosglwyddo'n ddidrafferth yn ôl i Gymru. Ceir hefyd bobl ifanc o Loegr sydd wedi'u lleoli yn yr ystad ddiogel yng Nghymru, ac mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau nad ydynt yn wynebu anfantais o gymharu â'u cyfoedion o Gymru, a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

## Cyfluniad yr ystad ddiogel i bobl ifanc

6.57 O dan Raglen Trawsnewid y Ddalfa mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd wrthi'n gwneud gwaith i roi addysg wrth wraidd canolfannau cadw ieuenctid drwy ddatblygu Colegau Diogel, gwella'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes a gwella cymorth ailsefydlu. Mae'r lleihad ym mhoblogaeth lleoliadau carcharu i bobl ifanc wedi golygu bod llai o alw am bob math o sefydliad[25] ac mae hefyd wedi arwain at newidiadau ym mhroffil y boblogaeth. Er enghraifft, mae cau Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 Ashfield, ochr yn ochr â'r lleihad yn nifer y bobl sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa, wedi golygu bod mwy o bobl ifanc o Loegr yn cael eu lleoli yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 y Parc Hefyd, mae pob Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 i ferched bellach wedi cael ei ddatgomisiynu felly mae merched bellach yn cael eu lleoli mewn Canolfan Hyfforddi Ddiogel neu Gartref Plant Diogel.

6.58 O ran Cartrefi Plant Diogel yng Nghymru a Lloegr, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau meddiannaeth a newid yn y math o leoliad. Er bod lleihad cyson wedi'i weld yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lleoli gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, mae canran y bobl ifanc sy'n cael eu lleoli gan yr Awdurdod Lleol ar sail lles wedi cynyddu. O ran cartref plant diogel Hillside yn y de, mae nifer llai o leoedd cyfiawnder diogel bellach ar gael, a hynny am fod llai o alw amdanynt[26]. Mae'r newid ym mhroffil y boblogaeth sy'n cael eu dedfrydu neu eu remandio i ofal cartrefi plant diogel yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr addasu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes i ddiwallu anghenion poblogaeth hŷn.

6.59 Credwn fod angen ystad ddiogel benodol sy'n cynnwys sefydliadau diogel yng Nghymru sy'n gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc o Gymru a Lloegr a leolir yn eu gofal. Felly, byddwn yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddatblygu deddfwriaeth a pholisi i sicrhau bod sefydliadau diogel yn gallu cyflawni'r gofyniad hwn.

6.60 O ran yr ystad ddiogel i bobl ifanc yng Nghymru, cydnabyddwn fod llawer o waith da yn cael ei wneud yn y ddau sefydliad hyn a thrwy'r cysylltiadau sydd ganddynt â darpariaeth gymunedol. Er enghraifft, un maes o arfer da a nodwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn 2012[27] yn y Parc yw'r trefniadau trosiannol sydd ar waith i bobl ifanc sy'n bwrw dedfrydau hwy pan fyddant yn symud i'r safle i oedolion. Mae gan Hillside amrywiaeth

[25] Mae'r ystad ddiogel ar hyn o bryd yn cynnwys Cartrefi Plant Diogel; Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel.

[26] Am ragor o wybodaeth ystadegol, gweler dogfen yr Adran Addysg (2013) Children accommodated in secure children's homes at 31st March, 2013. Datganiad Ystadegol Cyntaf (2013).

[27] Adroddiad am arolygiad lle y rhoddwyd rhybudd o'r Uned Pobl Ifanc yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc a Charchar EM Parc 2 – 6 Gorffennaf 2012 gan Brif Arolygydd Carchardai EM

o wasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau arbenigol ar waith, yn ogystal â chysylltiadau da â gwasanaethau cymunedol, ac uned alwedigaethol bwrpasol. Mae'r ddau sefydliad yn rhan o'r trefniadau ailintegreiddio ac ailsefydlu rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y gall gwaith trawsffiniol gan Awdurdodau Lleol eu creu.

6.61 Mae'r newid ym mhroffil pobl ifanc yn yr Ystad Ddiogel yn ogystal ag agosrwydd daearyddol Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 y Parc a Chartref Plant Diogel Hillside yn cynnig nifer o gyfleoedd i'r ddau sefydliad gydweithio'n agosach. Cydnabyddwn ei bod yr un mor bwysig atgyfnerthu rôl gwasanaethau fel iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn deall a diwallu anghenion pobl ifanc yn y ddalfa. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â hyn ar lefel strategol.

### Dull gweithredu integredig rhwng yr ystad ddiogel a Thimau Troseddau Ieuenctid

6.62 Ar lefel leol, mae Timau Troseddau Ieuenctid yn parhau i roi cymorth i bobl ifanc tra byddant yn y ddalfa, ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae'n bwysig cydgysylltu trefniadau rheoli dedfrydau cymunedol a dedfrydau o garchar er mwyn darparu gwasanaeth di-dor i berson ifanc. Dylai ailsefydlu ac ailintegreiddio fod wrth wraidd y broses o reoli gofal a dedfrydau a dylai'r ddau sefydliad ganolbwyntio ar hyn o'r adeg y bydd person ifanc yn dechrau cyfnod yn y ddalfa. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd pobl ifanc yn bwrw dedfrydau byrrach. Dylid ystyried darparu'r un math o becynnau mor gynnar â'r cam cyn-dedfrydu, oherwydd gall cymorth gwirfoddol roi mwy o hyder i Ynadon orfodi dedfryd gymunedol.

6.63 Dylai pobl ifanc gael eu cefnogi er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa, a dylid sicrhau bod gwasanaethau ar gael i sicrhau y gellir parhau â'r gwaith a wnaed mewn llety diogel yn y gymuned. Bydd gwneud defnydd mwy effeithiol o drefniadau Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro a Symudedd yn helpu i baratoi unigolion ar gyfer eu rhyddhau. Mae gwaith effeithiol rhwng asiantaethau carcharu a chymunedol yn llawer haws pan fydd gweithwyr proffesiynol yn delio â llai o sefydliadau carcharu[28]. Bydd ein cynlluniau i annog mwy o gydweithredu ymhlith yr ystad ddiogel yng Nghymru a'r Timau Troseddau Ieuenctid ochr yn ochr â phrotocol y cytunwyd arno ar benderfyniadau lleoli mewn perthynas â phobl ifanc yng Nghymru yn helpu yn hyn o beth.

6.64 Rhaid i ymyriadau, cymorth a hyfforddiant ar draws y ddau leoliad gael eu cydgysylltu ar y cyd gan y lleoliad diogel, y Tîm Troseddau Ieuenctid a phartneriaid ehangach er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus a pherchenogaeth a rennir. Dylai pob partner perthnasol gael ei gynrychioli mewn cyfarfodydd sy'n bodloni gofynion statudol yn ogystal â threfniadau lleol a rhanbarthol fel paneli aml-asiantaeth sy'n cynllunio ac yn goruchwylio gofal, dedfrydau a chymorth ailsefydlu. Felly, mae angen dull gweithredu aml-haen arnom lle mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn meithrin partneriaethau strategol a gweithredol.

6.65 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[29] yn gweithredu'r Papur Gwyn *"Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu"* sy'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

[28] Hazel. N. a Liddle, M. (2012) Resettlement in England and Wales: key policy and practice messages from research. Llundain: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

[29] www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664

6.66 Mae'r fframwaith diwygiedig yn seiliedig ar yr egwyddor o hyrwyddo canlyniadau lles pobl Cymru a dyletswydd ar y cyd newydd i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithio i asesu anghenion eu poblogaeth a rhoi gwasanaethau ar waith i atal, oedi neu leihau anghenion unigolion am ofal a chymorth. Mae'r Ddeddf yn ategu dyletswyddau presennol Awdurdodau Lleol i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn ogystal â hyrwyddo partneriaeth a chydweithredu â phartneriaid statudol a phartneriaid yn y Trydydd Sector ar draws gwasanaethau plant ac oedolion.

6.67 Ers 2011, mae awdurdodau lleol, timau troseddau ieuenctid a'r ystad ddiogel wedi gweithio mewn partneriaeth i gefnogi grwpiau penodol o blant y mae eu natur fregus bosibl yn golygu bod angen cydweithredu effeithiol ar draws yr asiantaethau er mwyn helpu i'w hailintegreiddio'n effeithiol i mewn i'r gymuned. Mae'r arfer hwn wedi bod yn seiliedig ar is-ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

6.68 Mae'r fframwaith deddfwriaethol hwnnw wedi'i ailddeddfu drwy gyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i ategu er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn yr ystâd ddiogel yn gallu cael ymweliad gan ei awdurdod lleol. Ein bwriad yw defnyddio'r fframwaith deddfwriaethol hwn i adeiladu ar arfer sy'n bodoli eisoes drwy fframwaith statudol diwygiedig er mwyn sicrhau bod canlyniadau ymweliadau Awdurdodau Lleol â phlant yn yr ystâd ddiogel yn adlewyrchu anghenion a natur fregus bosibl plant o'r fath ac yn rhan allweddol o'n dull arfaethedig o gynllunio cymorth ailintegreiddio ac ailsefydlu effeithiol.

## Blaenoriaeth 5: Ailsefydlu ac ailintegreiddio ar ddiwedd dedfryd

### Canlyniad

- Mae plant a phobl ifanc yn symud yn ddidrafferth o ddedfryd cyfiawnder ieuenctid i fywyd annibynnol di-drosedd.

### Cefndir

*"Dylai un gweithiwr Tîm Troseddau Ieuenctid gael ei benodi i chi drwy'r broses, dylai fod mwy o gysondeb".*

*Sylw gan Berson Ifanc fel rhan o'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd*

6.69 Yn y bennod flaenorol amlinellwyd dyhead y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i Gymru ddod yn wlad heb ddalfa. Hyd nes y gwireddir y weledigaeth hon, mae sicrhau bod plant a phobl ifanc a ddedfrydir i gyfnod yn y ddalfa yn cael eu hailsefydlu a'u hailintegreiddio'n gywir yn parhau'n flaenoriaeth. Mae plant a phobl ifanc yn wynebu heriau penodol pan fydd eu cyfnod gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn dod i ben neu pan fyddant yn gadael y ddalfa. Oni bai eu bod o dan ofal Gwasanaethau Cymdeithasol Plant neu fod ganddynt deulu cefnogol sy'n diwallu eu hanghenion, nid oes neb yn gwbl atebol am sicrhau yr eir i'r afael â'r anghenion hyn. Gall hyn olygu nad yw pobl ifanc yn cael eu cefnogi; sef yr hyn y cyfeirir ato weithiau fel 'bwlch mewn atebolrwydd'. Bydd rhai hefyd yn ei chael hi'n anodd newid i'r system cyfiawnder oedolion.

6.70 Mae cyfraddau aildroseddu ar ôl rhyddhau yn arbennig o uchel, gyda 76% o bobl ifanc sydd wedi ei gysylltu â Thim Troseddau Ieuenctid Cymru a gafodd ei ryddhau o'r

ddalfa yn mynd ymlaen i aildroseddu o fewn 12 mis[30]. Gall hyn yn aml fod yn gysylltiedig â chyfleoedd a gollwyd a diffyg gwasanaethau sy'n hanfodol i ailsefydlu pobl ifanc yn effeithiol a'u galluogi i ymatal rhag troseddu neu oedi o ran y gwasanaethau hynny. Pan fydd plant a phobl ifanc yn gadael y ddalfa byddant yn aml yn dychwelyd i'r un amgylchiadau â'r hyn yr oeddent ynddynt pan wnaethant droseddu yn y lle cyntaf ac nid yw'n syndod felly eu bod yn aildroseddu.

6.71 Dengys tystiolaeth fod cymorth ailsefydlu effeithiol yn gallu trawsnewid bywydau, helpu i ddiogelu cymdeithas ac arbed arian'[31]. Cydnabyddwn ein bod yn chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o atgyfnerthu rôl gwasanaethau ac ymdeimlad o berchenogaeth a rennir. Byddwn yn cyflawni hyn drwy adeiladu ar drefniadau sy'n bodoli eisoes ac arfer effeithiol er mwyn helpu cynllunwyr gwasanaethau i ddatblygu proses reoli ddwy haen (strategol a gweithredol) ar lefel leol a rhanbarthol a gefnogir yn genedlaethol gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac ar draws Llywodraeth Cymru.

6.72 Byddwn yn datblygu proses ddwy haen a gefnogir yn genedlaethol drwy wneud y canlynol:

### Sicrhau dealltwriaeth gyffredin a dealltwriaeth a rennir o gymorth ailsefydlu ac ailintegreiddio

6.73 Ym maes cyfiawnder troseddol, cysylltwyd ailsefydlu yn bennaf â'r amgylchedd carcharu a'r adeg pan fydd unigolyn yn gadael. Mae'r newid ym mhroffil y boblogaeth cyfiawnder ieuenctid ochr yn ochr â thirlun arfer sy'n newid wedi ein hannog i ystyried ystyr ehangach ailsefydlu; gan roi pwyslais cyfartal ar gefnogi'r rheini y mae eu dedfrydau cymunedol yn dod i ben. Mae pobl ifanc sy'n bwrw dedfrydau cymunedol yn aml yn rhannu nodweddion ac mae ganddynt anghenion cymhleth ac ymddygiadau heriol tebyg i'r rheini yn y ddalfa. Awgryma dysgu o'r cynllun peilot a gwerthusiad o baneli cymorth ailsefydlu[32] hefyd fod darparu pecynnau cymorth gwirfoddol ar gam cyn-dedfrydu yn gallu cynyddu hyder ynadon mewn opsiynau dedfrydu cymunedol. Dylid rhoi cymorth ailsefydlu ac ailintegreiddio i'r bobl ifanc hyn er mwyn eu hatal rhag cael eu dedfrydu i'r ddalfa byth eto.

6.74 Er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o ailsefydlu ac ailintegreiddio ledled Cymru byddwn yn sicrhau bod polisïau i Gymru a chanllawiau ar y cyd perthnasol yn cyd-fynd â'r egwyddorion arweiniol canlynol:

- Y bobl ifanc hynny sy'n gymwys i gael cymorth ailsefydlu ac ailintegreiddio yw'r rheini a gaiff eu remandio, eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa neu sy'n bwrw dedfrydau cymunedol ac sydd mewn perygl o gael eu dedfrydu i'r ddalfa os bydd eu hymddygiad troseddol yn parhau;
- Dylid ystyried ailsefydlu ac ailintegreiddio ar y cam cynharaf posibl a dylai fod wrth wraidd y broses o gynllunio gofal a dedfrydau;

---

[30] Ystadegau o ddadansoddiad bwrpasol y Proven Reoffending Statistics Quarterly Bulletin. July 2011 to June 2012 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2014).

[31] *Dyfynnwyd gan Frances Done, Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn Hazel. N. a Liddle, M. (2012). Resettlement in England and Wales: key policy and practice messages from research. Llundain: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.*

[32] Phillips, L., Smith, R., Martin, K., Mehta, P. a Durbin, B. (2012) Gwerthusiad o Gynllun Panel Cefnogi Ailsefydlu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

- Dylid gwahaniaethau rhwng gofynion dedfryd statudol a'r cymorth gwirfoddol a roddir i ailsefydlu neu ailintegreiddio pobl ifanc yn ôl i mewn i'r gymuned a gwasanaethau prif ffrwd;
- Dylai pobl ifanc gael eu cynnwys wrth gynllunio cymorth ailsefydlu ac ailintegreiddio, a dylai'r broses honno fod yn un holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i theilwra i anghenion unigol; dylai fod yn broses hyblyg sy'n addasu i anghenion sy'n newid;
- Yr asiantaeth arweiniol fwyaf addas (nid gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid bob amser) ddylai gydgysylltu'r cymorth ailsefydlu ac ailintegreiddio a dylai cyfnod y cymorth gael eu pennu gan yr asiantaeth a'r person ifanc a, lle y bo'n bosibl, rheini a gofalwyr.

### Rhoi newidiadau ar waith i strwythurau darparu gwasanaethau cyhoeddus

6.75 Mae'r bobl ifanc hynny sydd ar ôl yn y system yn fwy tebygol o fod ag anghenion cymhleth a phatrymau troseddu sydd wedi ymwreiddio. Mae hyn yn golygu bod ardaloedd lleol unigol bellach yn wynebu heriau o ran maint wrth ddarparu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer nifer gymharol lai o bobl ifanc y mae angen mwy o sylw arnynt. Y weledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu anghenion ailsefydlu ac ailintegreiddio pobl ifanc yw datblygu dull gweithredu aml-haen. Bydd hyn yn sicrhau y gellir deall anghenion ailsefydlu ac ailintegreiddio a mynd i'r afael â hwy ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau llinellau atebolrwydd a rhannu gwybodaeth agored a chlir rhwng pob lefel, a fydd yn cynnwys partneriaethau a threfniadau ar gyfer nodi a datrys materion unigol, cymdeithasol, amgylcheddol a systemig.

### Ar lefel genedlaethol, byddwn yn cydweithio i ddatrys materion systemig sy'n effeithio ar y ddarpariaeth a pharhad gwasanaethau

6.76 Byddwn yn datblygu polisïau a chanllawiau newydd. Byddwn yn sefydlu proses adrodd ar gyfer y rheini sy'n gyfrifol am gomisiynu a darparu gwasanaethau er mwyn adrodd ar faterion na ellir eu datrys drwy fframweithiau a threfniadau sy'n bodoli eisoes, a lle mae angen i ni ymyrryd. Byddwn hefyd yn comisiynu gwaith i ddatblygu safonau ailsefydlu cenedlaethol y gellir eu haddasu i ddiwallu anghenion rhanbarthol a lleol. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gydraddoldeb a mynediad at wasanaethau.

### Ar lefel ranbarthol, byddwn yn rhoi cymorth ariannol ac ymarferol i Bartneriaethau Ailintegreiddio ac Ailsefydlu

6.77 Caiff Partneriaethau Ailintegreiddio ac Ailsefydlu eu ffurfio fel rhan o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a fydd yn mynd i'r afael â'r problemau cyffredin sy'n codi wrth gynllunio cymorth ailsefydlu, yn adolygu achosion ac yn rhannu arfer da. Mae ein cynnig i gefnogi'r partneriaethau rhanbarthol hyn yn seiliedig ar ddysgu o'r gwerthusiadau o gonsortia ailsefydlu ledled Lloegr, paneli cymorth ailsefydlu yng Nghymru a'r prosiectau rhanbarthol a sefydlwyd gennym yn y de a'r gogledd.

6.78 Dylai pobl ifanc allu cael gafael ar yr un gwasanaethau ni waeth ble maent yn byw yng Nghymru. Felly, disgwyliwn i'r rheini sy'n gyfrifol am gomisiynu a darparu gwasanaethau gydweithio i ddatblygu dull gweithredu cydgysylltiedig sy'n gallu teilwra gwasanaethau i anghenion unigol.

**Ar lefel leol, byddwn yn parhau i gefnogi trefniadau holistaidd amlasiantaeth sy'n cynllunio ac yn cydgysylltu cymorth ailsefydlu ac ailintegreiddio i bobl ifanc**

6.79 Bydd gan bob person ifanc gynllun ailintegreiddio ac ailsefydlu ar waith. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys llwybr clir sy'n cysylltu gwasanaethau'n ddi-dor ac yn rhoi'r cyfle gorau posibl i bobl ifanc ailsefydlu a mynd ymlaen i fyw bywyd di-drosedd. Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o fanteisio ar gymorth os nad ystyrir ei fod yn estyniad i ddedfryd statudol. Disgwyliwn i bobl ifanc gael eu cefnogi yn ogystal â'u rheolwr achos, naill ai mewn lleoliad carcharu neu yn y gymuned. Dylai hyn ddigwydd o ddechrau'r ddedfryd (hyd yn oed cyn gynted â'r cam cyn-dedfrydu) a phara drwy gyfnod y ddedfryd a thu hwnt, hyd nes y gall y person ifanc weithredu'n annibynnol. Bydd y Cynllun Ailsefydlu ac Ailintegreiddio unigol yn strategaeth gadael dedfryd. Rhoddir y cynllun hwn ar waith a bydd yn cynnwys mewnbwn gan asiantaethau partner a darparwyr y mae'n rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau a chymorth i gyflawni'r disgwyliad hwn.

# 7. Dulliau Cyflawni

## Dull Cyflawni 1: Cefnogi'r sector i ddatblygu arfer effeithiol

### Cefndir

7.1 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn diffinio arfer effeithiol fel yr hyn sy'n arwain at y canlyniadau a fwriadwyd[33]. Byddai unrhyw ddull, arfer neu raglen a gefnogir gan waith cynllunio da a thystiolaeth sy'n dangos lleihad yn nifer yr achosion o droseddu a chanlyniadau gwell i bobl ifanc yn cael ei ystyried yn effeithiol.

7.2 Cydnabyddwn fod angen i'r gwaith o ddatblygu a hyrwyddo arfer effeithiol gael ei gefnogi gan fewnbwn o bob rhan o feysydd polisi, academia ac arfer a bod angen i'r meysydd hyn gydweithio'n llawer agosach. Dylai arfer cyfiawnder ieuenctid effeithiol yng Nghymru:

- Bod yn seiliedig ar ddamcaniaeth gadarn, wedi ei gynllunio'n glir a/neu ei arwain gan dystiolaeth o waith gwerthuso;
- Bod yn berthnasol i'r rheini sy'n bwriadu ei ddefnyddio;
- Rhoi polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar waith yn llwyddiannus.

### Sut y byddwn yn helpu i gyflawni hyn?

7.3 Yn ogystal â bod yn un o gyfrifoldebau statudol y Timau Troseddau Ieuenctid, dylai hyrwyddo arfer effeithiol fod yn sail i'n hystod lawn o gyfrifoldebau a'r gwaith a wnawn mewn partneriaeth.

7.4 Arweiniodd diwylliant cryf o waith partneriaeth ar lefel genedlaethol yng Nghymru at sefydlu Panel Datblygu Arfer; cydweithrediad rhwng y rheini sy'n ymwneud â pholisi, ymchwil ac arfer. Mae gan y Panel lawer o swyddogaethau ond ei brif ddiben yw helpu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i ddatblygu a gwerthuso eu harfer a, lle y bo'n bosibl,

[33] Chapman a Hough 1998

sicrhau bod yr arfer hwn ar gael yn ehangach. Mae'r mewnbwn gan Brifysgolion yng Nghymru wedi bod yn elfen amhrisiadwy; yn bennaf am fod gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn gynyddol awyddus i fonitro a gwerthuso'r hyn a wnânt. Bydd hwn yn faes allweddol i'w gefnogi a'i ddatblygu o dan y strategaeth hon.

### Ymateb i anghenion y sector cyfiawnder ieuenctid

7.5 Cydnabyddwn fod gennym rôl i'w chwarae i sicrhau bod gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid y wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod bylchau mewn gwybodaeth a thystiolaeth sy'n ei gwneud yn anodd i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ymateb yn briodol i ymddygiad troseddol a phobl ifanc sydd ag anghenion amrywiol a chymhleth yn aml.

7.6 Os oes digon o wybodaeth, ymchwil a deunydd yn bodoli eisoes i arwain ymarferwyr, caiff hyn ei grynhoi a'i ddarparu er mwyn i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ei ddefnyddio. Os nad oes digon o dystiolaeth ar gael, byddwn yn gwneud rhagor o waith i annog gwasanaeth i'w datblygu. Gallai hyn gynnwys helpu gwasanaethau i ddatblygu tystiolaeth sy'n cefnogi arfer effeithiol.

### Nodi a lledaenu arfer effeithiol

7.7 Cydnabyddwn y gall fod yn anodd i wasanaethau prysur neilltuo amser i ddogfennu, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith arloesol i'w ystyried gan y gymuned cyfiawnder ieuenctid ehangach. Er mwyn helpu gwasanaethau i wneud hyn, byddwn yn gweithio'n uniongyrchol gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac yn hwyluso'r broses o ddatblygu arfer sy'n dod i'r amlwg.

7.8 Lle mae gwasanaethau cyfiawnder yn awyddus i werthuso a datblygu eu harfer sy'n dod i'r amlwg, byddwn yn cydweithio â hwy i'w ddogfennu, cynnal unrhyw chwiliadau perthnasol am lenyddiaeth, a'u helpu i ystyried cynlluniau ar gyfer gwaith gwerthuso pellach; gan gynnwys cydweithio â'r Prifysgolion yng Nghymru a all hefyd roi cymorth.

7.9 Sicrhau bod rheolwyr ac ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid yn gallu cael gafael yn hawdd ar wybodaeth am arfer effeithiol mewn fformat defnyddiol ac ymarferol yw prif nod ein gwaith. Bydd y ffordd y byddwn yn gwneud hyn yn amrywio, yn dibynnu ar natur pob arfer penodol, a pha un a yw'r arfer yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth, canllawiau a safonau cenedlaethol. Elfen allweddol o'r holl lwybrau lledaenu sydd ar gael i ni fydd gwaith cydweithredol gyda'n partneriaid arfer effeithiol.

### Datblygu'r gweithlu

7.10 Yr adnoddau mwyaf gwerthfawr ar gyfer cyflawni cyfiawnder ieuenctid effeithiol yw'r ymarferwyr eu hunain. Mae'r gweithlu cyfiawnder ieuenctid yn cynnwys staff a gwirfoddolwyr yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol, sy'n gweithio ar draws gwasanaethau cymunedol a sefydliadau diogel. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Staff craidd sy'n cyflawni swyddogaethau ac ymyriadau statudol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd;
- Staff rhaglen arbenigol sy'n asesu ac yn ymyrryd ag anghenion lles penodol pobl ifanc unigol ac anghenion sy'n debygol o arwain at ymddygiad troseddol;

- Gwirfoddolwyr sy'n cefnogi ymyriadau ar draws yr ystod lawn o leoliadau cymunedol a sefydliadau diogel.

7.11 Rydym am sicrhau ymagwedd gynhwysfawr a chydweithredol at sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid ar draws lleoliadau cymunedol a diogel. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiffinio'r Fframwaith Dysgu a Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid ledled Cymru a Lloegr ac i sicrhau y caiff ei ymgorffori'n llawn yn y sector erbyn diwedd 2015. Bydd hyn yn cynnwys:

- Adnoddau datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gyda'r nod o fynd i'r afael â bylchau a nodwyd mewn sgiliau a gwybodaeth;
- Datblygu 'Sgiliau Sylfaenol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid' a'u hyrwyddo i bob rhan o'r gweithlu, wedi'u hategu gan gyngor ar sgiliau a chymwyseddau sy'n benodol i'r sector;
- Cymhwyster proffesiynol priodoladwy a hygyrch (y Dystysgrif Arfer Effeithiol) i weithwyr proffesiynol ym maes cyfiawnder ieuenctid.

7.12 Yng Nghymru, ategwn y cymhwyster hwn drwy ddarparu hyfforddiant wedi'i dargedu i ymarferwyr. Bydd hyn yn gyson â'n gwaith i ddatblygu dulliau newydd o reoli achosion pobl ifanc ag anghenion cymhleth ac sy'n troseddu'n gyson yn ogystal â blaenoriaethau a nodwyd gan ein gwaith gyda'r Panel Datblygu Arfer.

## Dull Cyflawni 2: Goruchwylio a chefnogi'r sector cyfiawnder ieuenctid

### Cefndir

7.13 Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru i fonitro perfformiad a chynnig cymorth gwella lle bo angen. Mae'r ethos cyffredinol sy'n sail i'r gwaith hwn yn ymwneud â sicrhau cyn lleied â phosibl o ymyrraeth ganolog a chymaint â phosibl o benderfyniadau lleol; wedi'u cefnogi gan adnoddau a ddatblygwyd gan y Bwrdd i hwyluso gwelliannau cydweithredol.

### Sut y byddwn yn helpu i gyflawni hyn?

7.14 Mae'r gwaith o oruchwylio perfformiad mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid cymunedol a gwarchodol yn broses gydweithredol, lle mae gwasanaethau unigol neu grwpiau rhanbarthol yn teimlo eu bod yn gallu rhannu pryderon a risgiau gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn ceisio gwella. Bob chwarter, mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth o ddata sy'n ymwneud â'r tri dangosydd canlyniadau yng Nghymru a Lloegr:

- Unigolion sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf
- Achosion o aildroseddu a brofwyd
- Y defnydd o'r ddalfa

7.15 Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru hefyd yn gwneud hyn gyda gwybodaeth am y dangosyddion canlyniadau datganoledig canlynol sy'n ymwneud â gallu'r rheini yn y system cyfiawnder ieuenctid i gael gafael ar y canlynol:

- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Llety addas
- Asesiad a thriniaeth ar gyfer anghenion camddefnyddio sylweddau

7.16 Mae gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru amrywiaeth o adnoddau a brofwyd er mwyn helpu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid cymunedol a gwarchodol i wella gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys pecynnau cymorth arfer a pherfformiad er mwyn dadansoddi problemau a nodi meysydd i'w dadansoddi a'u gwella, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer defnyddio rhestr o asesiadau o arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn cydweithrediad â'n partneriaid academaidd.

7.17 Fodd bynnag, lle bydd perfformiad gwael yn parhau, ac na fydd gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn cymryd y camau angenrheidiol i wella, byddwn yn defnyddio proses ymyrryd a all yn y pen draw arwain at gyfeirio'r gwasanaethau at Weinidogion Cymru a Llywodraeth y DU. Byddwn yn gweithio i osgoi hyn drwy gefnogi a chynnwys gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a'u byrddau rheoli yn weithredol.

**Sut y byddwn yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth?**

7.18 Caiff Cynllun Cyflawni ei ddatblygu a'i oruchwylio gan Lywodraeth Cymru/Bwrdd Gweithredu Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae aelodaeth y Bwrdd Gweithredu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a phob adran berthnasol o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys diogelwch cymunedol, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, llywodraeth leol a thai. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid cenedlaethol drwy Banel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i hwyluso craffu agored a thryloyw ar gynnydd.